OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1216

# Rheoliadau yr Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018

## RHAN 5

## Diwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag anifeiliaid

### Gorchymyn Rheoli Salmonela mewn Heidiau o Dyrcwn (Cymru) 2010

**36.**—(1) Mae Gorchymyn Rheoli Salmonela mewn Heidiau o Dyrcwn (Cymru) 2010(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2(2)—

(a) yn lle is-baragraff (a) rhodder—

"(a) Rheoliad (EU) Rhif 1190/2012 yn gyfeiriad at Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1190/2012 ynghylch targed yr Undeb ar gyfer lleihau nifer yr achosion o *Salmonella enteritidis* a *Salmonella typhimurium* mewn heidiau o dyrcwn, fel y darperir ar ei gyfer yn Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**2**), fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, ";

(b) hepgorer is-baragraff (b).

(3) Yn erthygl 4(1)—

(a) yn lle "Reoliad (EC) Rhif 584/2008" rhodder "Reoliad (EU) Rhif 1190/2012";

(b) yn lle "phwynt 3.1" rhodder "phwynt 2.2.4".

(4) Yn erthygl 7, yn lle "Reoliad (EC) Rhif 584/2008" rhodder "Reoliad (EU) Rhif 1190/2012, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 36 mewn grym ar 17.12.2018, gweler **rhl. 1(3)**

(**1**) O.S. 2010/65 (Cy. 15).
(**2**) OJ Rhif L 340, 13.12.2012, t. 29.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau yr Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018, Adran 36.